

Bwrdd Cynggori Cenedlaethol AGC

**Penodi aelodau'r bwrdd
Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr**

**Dyddiad cau: 16:00, 28 Chwefror
2022**

1. Amdanom ni

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw rheoleiddiwr annibynnol gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru. Mae'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu yn cynnwys y canlynol:

- Gwasanaethau cartrefi gofal (oedolion a phlant)
- Gwasanaethau cymorth cartref
- Gwasanaethau lleoli oedolion
- Gwasanaethau llety diogel
- Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Gwasanaethau maethu
- Gwasanaethau eirioli
- Gwarchodwyr plant
- Gofal dydd (gan gynnwys chwarae) i blant o dan 12 oed

Rydym hefyd yn adolygu perfformiad awdurdodau lleol wrth ddarparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn gwneud hyn trwy gyfuniad o weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad. Yn ogystal, rydym yn arolygu ysgolion preswyl, ysgolion arbennig preswyl (trefniadau preswyl o dan 295 o ddiwrnodau), a cholegau addysg bellach sy'n darparu llety i fyfyrwyr sy'n iau na 18 oed.

Mae AGC yn cynnal ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ond mae ganddi annibyniaeth weithredol ar Lywodraeth Cymru.

Mae gan AGC tua 283 o aelodau o staff wedi'u lleoli ar draws tair swyddfa yng Nghymru – Caerfyrddin, Cyffordd Llandudno a Merthyr Tudful.

2. Bwrdd Cyngori Cenedlaethol AGC

Mae Bwrdd Cyngori Cenedlaethol AGC (y Bwrdd) yn rhoi llais i bobl yn y ffordd yr ydym yn gwneud ein gwaith.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau o bob rhan o faes gofal plant, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd ag aelodau'r

cyhoedd, gan gynnwys gofalmwyr a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yr ydym yn eu rheoleiddio.

Mae'r Bwrdd yn rhoi arbenigedd a chynghor i helpu i gefnogi AGC i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant er llesiant pobl Cymru. Mae hefyd yn helpu i osod ein [blaenoriaethau strategol](#), yn monitro ac yn herio ein gwaith cyflenwi a lefelau perfformiad, ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith.

3. Aelodau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cynnwys cadeirydd ac uchafswm o 25 o aelodau.

Mae'r Bwrdd yn rhoi llais i bobl gyda chynrychiolydd gan deuluoedd, perthnasau, gofalmwyr, defnyddwyr gwasanaethau a'r sector gwirfoddol. Mae'r Bwrdd hefyd yn rhoi llais i ddarparwyr gwasanaethau a sefydliadau partner o faes gofal cymdeithasol, gofal plant a chwarae, a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae aelodau'n cael eu dewis i adlewyrchu'r rhanbarthau gwahanol yng Nghymru, yr ystod o wasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol a reoleiddir gan AGC, ac amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol pobl Cymru.

4. Eich rôl fel aelod o'r Bwrdd

Rydym yn chwilio am unigolion brwdfrydig sydd â diddordeb mewn helpu i lywio gwaith AGC. Fel aelod o'r Bwrdd, bydd angen i chi wneud y canlynol:

- rhannu eich barn am wasanaethau cymdeithasol, y sector gofal cymdeithasol, a'r sector gofal plant a chwarae
- rhoi syniadau a dweud sut yn eich barn chi y gall gwasanaethau cymdeithasol, y sector gofal cymdeithasol a'r sector gofal plant a chwarae fod yn well ledled Cymru
- gwrando, ymuno, a rhannu eich syniadau a'ch barn ar yr hyn y mae AGC yn ei wneud ac unrhyw beth y gallwn ei wneud yn wahanol
- helpu i hyrwyddo gwaith AGC
- cymryd rhan mewn tri chyfarfod o'r Bwrdd Cyngori Cenedlaethol bob blwyddyn

- cadw'r hyn y mae aelodau eraill o'r panel yn ei ddweud amdany'n nhw eu hunain yn breifat

Fel aelod o'r Bwrdd, gallech hefyd gael eich gwahodd i ymuno â grwpiau gorchwyl eraill yn AGC ar gyfer darnau o waith neu brosiectau gydag amser cyfyngedig.

5. Am bwy ydyn ni'n chwilio?

Rydym yn edrych i benodi tua deg aelod newydd o'r Bwrdd i ddisodli aelodau o'r Bwrdd sy'n gadael.

Dylai aelodau'r Bwrdd fod yn defnyddio'r sector gofal cymdeithasol a/neu'r sector gofal plant a chwarae neu weithio ynddynt. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau ambarél / sefydliadau'r trydydd sector sy'n rhan o'r gwaith yr ydym yn ei wneud, gofalwyr, a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yr ydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu. Byddem hefyd yn croesawu ceisiadau gan bobl ifanc a/neu bobl â phrofiad o fod mewn gofal.

Yn benodol, dylai un o'r canlynol fod yn wir amdanoch:

- derbyn cymorth gan wasanaethau cymdeithasol a/neu ofal cymdeithasol
- gofalu am rywun sy'n derbyn cymorth gan wasanaethau cymdeithasol a/neu ofal cymdeithasol
- bod yn berthynas i rywun sy'n derbyn cymorth gan wasanaeth gofal
- bod yn wirfoddolwr sy'n gweithio ym maes gwasanaethau cymdeithasol / gofal plant / gofal cymdeithasol
- bod yn sefydliad gwirfoddol sy'n cynrychioli pobl, teuluoedd a gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol a/neu ofal cymdeithasol
- gweithio i wasanaeth cartref gofal neu fod yn ddarparwr gwasanaeth cartref gofal
- gweithio i wasanaeth gofal plant a chwarae neu fod yn ddarparwr gwasanaeth gofal plant a chwarae
- gweithio i wasanaeth cymorth cartref neu fod yn ddarparwr gwasanaeth cymorth cartref

Rhoddir addasiadau rhesymol yn eu lle i'ch galluogi i gymryd rhan lawn yng ngwaith y Bwrdd. Os hoffech drafod unrhyw addasiadau sydd eu hangen arnoch, cysylltwch â ni yn:

AGC.SwyddfarPrifArolygydd@llyw.cymru.

6. Y broses ymgeisio

Cwblhewch y cwestiynau ar y ffurflen gais. Dylech ateb pob un o'r cwestiynau. Gofynnir ichi gyfyngu eich ymateb i bob cwestiwn i uchafswm o 250 gair fesul un.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg a Saesneg. Wrth gyflwyno eich cais, gofynnir ichi roi eich manylion cyswllt, ynghyd â'ch gweithle a'ch rôl bresennol, os yw'n berthnasol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech hefyd gwblhau'r ffurflen monitro cydraddoldeb. Bydd unrhyw wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn cael ei thrin yn gyfrinachol iawn.

Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn **4pm dydd Llun 28 Chwefror 2022** fan bellaf dros yr e-bost at AGC.SwyddfarPrifArolygydd@llyw.cymru neu drwy'r post at: Arolygiaeth Gofal Cymru, Swyddfa Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ.

Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch er mwyn gwneud cais am y rôl hon, anfonwch e-bost at AGC.SwyddfarPrifArolygydd@llyw.cymru.

7. Y broses ddethol

Bydd panel dethol yn asesu eich cais ac ymgymryd ag ymarfer sifftio cychwynnol. Byddwch yn cael eich hysbysu gan Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd p'un a yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus/aflwyddiannus ar y cam hwn.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus ar y cam hwn yn cael eu gwahodd i fynychu trafodaeth anffurfiol gyda'r panel i drafod eu haddasrwydd ar gyfer y rôl hon. Bydd hyn yn cael ei gynnal dros Microsoft Teams ym mis Mawrth neu fis Ebrill. Gofynnir i ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd i drafodaeth anffurfiol ddarparu manylion unrhyw anghenion unigol a/neu

addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen arnynt i gefnogi eu cyfraniad yn y trafodaethau hyn.

Byddwch yn cael eich hysbysu o benderfyniad y panel erbyn 30 Ebrill 2022 fan bellaf.

8. Telerau penodi

Tâl cydnabyddiaeth

Mae hon yn swydd wirfoddol, ddi-dâl ond ad-delir costau (treuliau) teithio, cynhaliaeth a gofaluwr rhesymol i aelodau'r Bwrdd wrth fynychu unrhyw gyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Ymrwymiad o ran amser

Bydd tri chyfarfod y flwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd fel arfer rhwng 10.30am a 2.30pm. Cynhelir cyfarfodydd yn rhithwir ar hyn o bryd. Efallai y byddwn yn cynnal rhai cyfarfodydd yn y dyfodol wyneb yn wyneb, ond bydd gennych yr hawl o hyd i fynychu'r cyfarfodydd hyn yn rhithwir.

Hyd y gwasanaeth

Penodir aelodau am dymor cychwynnol o dair blynedd, gyda'r opsiwn o dymor tair blynedd pellach.

Gofynion y Gymraeg

Rydym yn chwilio i benodi siaradwyr Cymraeg ychwanegol i'n Bwrdd ond nid yw sgiliau Cymraeg yn rhagofyniad ar gyfer pob penodiad i'r Bwrdd. Fodd bynnag, bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos ymrwymiad i'r iaith a'r diwylliant a dangos arweinyddiaeth i gryfhau a hyrwyddo darpariaeth gwasanaethau dwyieithog ym maes gofal plant a gofal cymdeithasol.

Ein hymrwymiad i amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i fodel cymdeithasol anabledd a chwalu rhwystrau fel y gall pob unigolyn berfformio ar ei orau. Rydym am fod yn Fwrdd gwrth-hiliaeth ac yn awyddus i gael aelodau newydd i'n helpu i gyflawni hyn fel rhan o waith y Bwrdd. Rydym am i'r Bwrdd adlewyrchu cymdeithas Cymru a phobl Cymru. Dyma pam yr ydym yn annog ystod eang ac amrywiol o bobl i ymgeisio. Yn benodol, croesawir ceisiadau gan grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol, gan gynnwys menywod,

pobl o dan 30 oed, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Gwrthdaro buddiannau

Gofynnir ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a all wrthdaro â rôl a chyfrifoldebau bod yn aelod o'r Bwrdd, neu y gellir eu gweld i fod yn gwrthdaro.

9. Ymholiadau

Os ydych yn dymuno cael trafodaeth anffurfiol ynglŷn â'r rôl hon, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r broses ymgeisio, cysylltwch ag Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd dros yr e-bost yn:

AGC.SwyddfarPrifArolygydd@llyw.cymru.